Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct



# Adeiladu Ymddiriedaeth a hyder me wn heddloedd

Cynllun Strategaeth yr IOPC **2022/27**

# Cynnwys


Rhagair gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol 4

Cyflwyniad 6

Gwerthoedd 8

Ein Cynllun Strategol 10

Cenhadaeth a gweledigaeth 12

Ymwybyddiaeth a hyder 14

Atebolrwydd 16

Arwain gwelliant 18

Perfformiad 20

# Rhagair gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol

**Rwy’n falch iawn o gyflwyno ein Cynllun Strategol 2022/27 – Meithrin Ymddiriedaeth a Hyder mewn Plismona. Mae’n strategaeth uchelgeisiol sy’n adeiladu ar ein llwyddiannau dros y tair blynedd diwethaf.**

Ers creu’r IOPC yn 2018, rydym wedi gwella amseroldeb ein hymchwiliadau’n sylweddol – gan gynyddu ymchwiliadau craidd a gyflwynir o fewn 12 mis o 68% yn 2018 i 90% yn 2021/22.

Rydym wedi newid ein hymagwedd at ymgysylltu â rhanddeiliaid yn llwyr, gydag adnoddau pwrpasol ar draws pob rhanbarth yn Lloegr a Chymru. Rydym wedi cynyddu ein ffocws ar ddysgu yn sylweddol, gan wneud mwy na 550 o argymhellion dysgu ar gyfer plismona yn genedlaethol ac ar gyfer heddluoedd lleol penodol. Mae ein gwaith thematig wedi canolbwyntio ar y materion sy’n peri’r pryder mwyaf i’r cyhoedd – gan gynnwys gwahaniaethu ar sail hil, cam-drin pŵer at ddiben rhywiol a thrais yn erbyn menywod a merched.

Mae'r Strategaeth newydd hon yn nodi ein gweledigaeth a'n cenhadaeth a'n hamcanion newydd ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Ein cenhadaeth yw gwella plismona trwy oruchwyliaeth annibynnol o gwynion yr heddlu, dwyn yr heddlu i gyfrif a sicrhau bod dysgu yn effeithio ar newid.

Ein gweledigaeth yw bod pawb yn gallu bod â ffydd a hyder yn yr heddlu.

Ein pedwar amcan yw:

- Bod pobl yn gwybod am y system gwynion a'u bod yn hyderus wrth ei ddefnyddio.
- Bod y system gwynion yn darparu canlyniadau teg sy’n seiliedig ar dystiolaeth sy’n dwyn yr heddlu i gyfrif.
- Mae ein tystiolaeth a'n dylanwad yn gwella plismona.
- Rydym yn sefydliad sy'n cyflawni perfformiad uchel.

Bydd cynlluniau busnes blynyddol manwl yn cefnogi'r strategaeth newydd. Cyhoeddwyd y cyntaf o'r cynlluniau hyn ochr yn ochr â'r ddogfen strategaeth hon.

Mae’r strategaeth yn adlewyrchu ein huchelgais y tu hwnt i system gwynion yr heddlu; ein bod yn rhan o system sy’n ceisio gwella hyder yn yr heddlu a byddwn yn gweithio gydag asiantaethau eraill i’r perwyl hwnnw.

Yn y bôn, credwn na allwch fod ag ymddiriedaeth a hyder yn yr heddlu heb fod system gwyno gryf, y mae pawb yn hyderus ynddi.

Rhaid i ni gyflawni ymchwiliadau o ansawdd uchel ac amserol. Bydd hyn bob amser yn parhau i fod yn flaenoriaeth, ond rydym yn cydnabod efallai nad ymchwiliadau annibynnol yw'r dull gorau bob amser i wella hyder y cyhoedd. Byddwn yn buddsoddi ein hadnoddau cyfyngedig lle mae ganddynt y potensial i gael yr effaith fwyaf. Er enghraifft, mae ein harolygiaeth o system gwynion yr heddlu yn gwella'r modd yr ymdrinnir â'r mwyafrif helaeth o gwynion a wneir yn erbyn yr heddlu gan heddluoedd eu hunain.

Mae ein hymagwedd thematig at waith yn ein galluogi i gasglu tystiolaeth ac adeiladu'r arbenigedd sydd ei angen i alw am newid mewn meysydd penodol o hyder isel, er



enghraifft, ein gwaith ar wahaniaethu ar sail hil. Mae ein hymchwil a'n hadroddiadau yn tynnu sylw at faterion plismona ac yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer dysgu a gwella, fel ein gwaith ar Taser. Mae ein rôl yn y system uwch-gwynion yn ein galluogi i ymateb i leisiau sy'n amlygu materion systemig mewn plismona.

Bydd y newid hwn mewn ymagwedd yn cael ei ysgogi gan ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig i gymunedau. Rydym wedi datblygu ein dealltwriaeth drwy ymgysylltu llawer gwell â rhanddeiliaid, a thrwy'r wybodaeth, y dystiolaeth, a'r tueddiadau a welwn yn ein gwaith gweithredol. Bydd hyn yn ein helpu i ddod yn llai adweithiol a chanolbwyntio mwy ar atal trwy sylwi ar dueddiadau ac ymyrryd yn gynnar.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid dros nifer o fisoedd i ddatblygu'r cynllun hwn. Rwy'n ddiolchgar am eu her a'u cyngor defnyddiol. Hoffwn hefyd ddiolch i aelodau'r Bwrdd Unedol a'n staff am eu cyfraniad a'u cefnogaeth.

Rwy'n gobeithio y byddwch yn cytuno bod hwn yn gynllun cyffrous, sy'n arwydd o bennod newydd lle rydym yn mynd i'r afael â'n dyletswydd statudol mewn ffordd ehangach a mwy effeithiol.

**'Mae ein hymagwedd thematig at waith yn ein galluogi i gasglu tystiolaeth ac adeiladu'r arbenigedd sydd ei angen i alw am newid mewn meysydd penodol o hyder isel'**

**Tom Whiting**
Cyfarwyddwr Cyffredinol dros dro



# Cyflwyniad

## Pwy ydym ni

Mae Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) yn goruchwylio system gwynion yr heddlu[1] yn Lloegr ac yng Nghymru, ac i gynnal hyder y cyhoedd yn y system. Rydym yn ymchwilio i'r materion mwyaf difrifol, gan gynnwys marwolaethau yn dilyn cyswllt â'r heddlu os yw cwyn wedi'i wneud neu peidio. Rydym hefyd yn gosod y safonau y dylai'r heddlu gwrdd wrth ymdrin â chwynion yn eu herbyn. Rydym yn defnyddio'r hyn a dysgwn o'n gwaith i ddylanwadu ar newidiadau mewn plismona.

Rydym yn annibynnol, ac yn gwneud ein penderfyniadau yn gwbl annibynnol i'r heddlu a'r llywodraeth. Nid yw ein Cyfarwyddwr Cyffredinol, ein Cyfarwyddwr Cymru a'n Cyfarwyddwyr Rhanbarthol erioed wedi gweithio i'r heddlu mewn unrhyw swyddogaeth.

## Yr hyn a wnawn

Mae mwyafrif y cwynion gan y cyhoedd yn cael eu trin gan heddluoedd. Fodd bynnag, mae'r IOPC yn gosod ac yn monitro'r safonau ar gyfer ymdrin â chwynion Rydym hefyd yn ystyried rhai mathau o adolygiadau gan bobl sy'n anfodlon â'r ffordd yr ymdriniwyd â'u cwyn.

Rhaid i heddluoedd gyfeirio'r achosion mwyaf difrifol atom ni, waeth a yw rhywun wedi gwneud cwyn neu peidio. Mae'r rhain yn cynnwys lle mae rhywun wedi marw neu wedi'i anafu'n ddifrifol yn dilyn cyswllt â'r heddlu, yn ogystal â honiadau o lygredd difrifol, ymosodiad difrifol ac ymddygiad penodol a waethygwyd gan wahaniaethu. Mae'n bosibl y byddwn yn penderfynu ymchwilio i achosion o'r fath yn annibynnol neu eu dychwelyd i heddluoedd i'w hymchwilio'n lleol.

Ynghyd ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) a'r Coleg Plismona rydym yn asesu ac yn ymateb i uwch-gwynion. Mae uwch-gwynion yn gwynion a wneir gan gyrff dynodedig, er enghraifft elusennau, am faterion eang neu systemig a allai effeithio ar hyder y cyhoedd mewn plismona.

Mae gennym bwerau mewn perthynas â nifer fach o heddluoedd arbenigol a sefydliadau sydd â phwerau tebyg i heddlu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA)**
- **Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC)**



1. Mae'r term hwn yn cynnwys cwynion a wneir gan aelodau'r cyhoedd, yr ymdrinnir â'r rhan fwyaf ohonynt gan adrannau safonau proffesiynol heddluoedd.




- **rhai heddluoedd arbenigo (gan gynnwys Heddlu Trafnidiaeth Prydain, Cwnstabliaeth Niwclear Sifil a Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn)**
- **rhai gweithgareddau staff mewnfudo a gorfodi'r Swyddfa Gartref**
- **y Meistri Gangiau ac Awdurdod Cam-drin Llafur (GLAA)**

Rydym hefyd yn ymchwilio i honiadau troseddol yn erbyn comisiynwyr heddlu a throsedd (PCCs) a'u dirprwyon.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys goruchwylio'r system gwynion gyfan, ni waeth pa sefydliad sy'n ymdrin â'r mater. Rydym yn defnyddio’r hyn a ddysgir o’n gwaith i ddylanwadu ar newidiadau a gwelliannau i arferion, arweinyddiaeth a diwylliant plismona.

Ni all yr IOPC ysgogi gwelliannau system gyfan ar ei ben ei hun ac mae angen i ni weithio gydag eraill. Mae hyn yn cynnwys cyrff plismona fel Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, y CoP a HMICFRS, yn ogystal â defnyddwyr gwasanaethau a chymunedau. Gyda’n partneriaid, tu mewn a’r tu allan i’r byd plismona, rydym yn sicrhau bod cwynion ac ymchwiliadau cyhoeddus i gamymddwyn a digwyddiadau difrifol yn rhan o gylch dysgu sy’n gwella plismona yn a Lloegr a Chymru.

# Gwerthoedd

**Datblygwyd ein gwerthoedd gan ein staff ac maent yn sail i'n holl waith. Bydd y gwerthoedd yn dylanwadu ar y gwaith rydym yn ei gyflawni a'n rhyngweithio â defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid. Bydd ein staff, y dyfodol a'r presennol, yn cael eu harwain gan y gwerthoedd hyn a byddwn yn ystyried pa mor dda rydym yn adlewyrchu'r rhain drwy arolygon a gweithgarwch ymgysylltu.**

## Dod o hyd i'r gwirionedd

Rydym yn teimlo'n freintiedig i fod yn geidwaid system gwyno'r heddlu. Rydym yn gwerthfawrogi ymddiriedaeth y cyhoedd a'r heddlu ac yn ymrwymo i fod yn gyfiawn ac yn deg wrth ddatgelu'r gwirionedd. Rydym yn cydnabod bod canlyniad cyfiawn yn dibynnu ar fod yn ddiduedd ac yn dryloyw wrth gyrraedd y gwirionedd am yr hyn a ddigwyddodd.

## Bod yn gynhwysol

Mae gennym ddiwylliant cynhwysol. Rydym yn deg ac yn ddiduedd wrth i ni drin pob unigolyn. Rydym yn gweithio ar draws ffiniau, yn fewnol yn ogystal ag yn allanol, yn cydweithio ac yn adeiladu perthnasoedd cryf.

## Grymuso pobl

Rydym yn credu y dylai pawb fod yn arweinydd ac â rhan mewn llunio cyfeiriad y sefydliad. Rydym yn darparu amgylchedd cefnogol a heriol lle gall pobl ffynnu a chyrraedd eu potensial. Rydym yn ymddiried yn ein pobl i wneud y pethau iawn. Rydym yn annog cymryd risgiau a fesurwyd a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth. Pan wneir camgymeriadau gwirioneddol, byddwn yn cynorthwyo pobl ac yn nodi cyfleoedd ar gyfer dysgu a gwella. Rydym yn sicrhau y gall pobl gyflwyno cwynion heb driniaeth annheg.

## Bod yn ddygn

Mae ein gwaith yn gofyn i ni fod yn feiddgar, yn wydn ac wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth i'r cyhoedd. Rydym yn ystyried ein dyletswyddau fel gweision cyhoeddus o ddifrif ac adlewyrchir ein hymrwymiad yn ein gwaith. Rydym yn cwrdd â'r heriau â dyfalbarhad i gyflawni nodau unigol a sefydliadol.

## Gwneud gwahaniaeth

Diffinnir gwerth ein gwaith nid yn unig yn ôl maint, ond yn ôl yr effaith sydd gan ein gwaith ar blismona a hyder y cyhoedd. Rydym yn diffinio ansawdd yn ôl pa mor dda mae'n gwaith yn bodloni anghenion y defnyddiwr gwasanaeth. Byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar feysydd fydd yn gwneud gwahaniaeth i'n cymunedau.




IOPC
IOPC

# Ein Cynllun Strategol

Dyma ail Gynllun Strategol yr IOPC sy’n nodi ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a’r strategaeth ar gyfer ei chyflawni. Mae’n egluro beth fydd ein blaenoriaethau a’r hyn y gobeithiwn ei gyflawni ym mhob un o’r meysydd hynny. Mae'n nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd dros y blynyddoedd i ddod a sut y byddwn yn mesur llwyddiant. Hon fydd y ddogfen arweiniol ar gyfer ein holl waith tan 2027.

Mae’n gynllun uchelgeisiol gyda’n nod dros y blynyddoedd i ddod i feithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona trwy arolygiaeth gadarn, annibynnol. Byddwn yn gwneud hynny drwy weithio tuag at bedwar amcan strategol:

## Ymwybyddiaeth a hyder

- Byddwn yn ymgysylltu â chymunedau a’r cyhoedd i ddeall materion sy’n effeithio ar eu hyder mewn plismona. Byddwn yn gweithio gyda nhw i hysbysu sut y gall yr IOPC ddefnyddio ein gwaith i ymateb.
- Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o system gwynion yr heddlu fel bod pobl yn deall eu hawl i gwyno, sut i gael mynediad i'r system a sut y dylent ddisgwyl i'r heddlu ymateb pan godir pryderon.
- Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o rôl unigryw’r IOPC ac effaith ein gwaith, fel bod y cyhoedd yn hyderus bod goruchwyliaeth annibynnol o’r system gwynion a digwyddiadau difrifol sy’n ymwneud â’r heddlu.

## Atebolrwydd

- Byddwn yn sicrhau bod ein gwaith yn ymateb i faterion sy’n effeithio ar hyder y cyhoedd yng nghyfreithlondeb yr heddlu drwy ddewis y cymysgedd cywir o waith – boed hynny’n ymchwiliadau annibynnol, gosod a monitro safonau ar gyfer ymdrin â chwynion, adolygu sut yr ymdriniwyd â chwynion, rhannu gwersi a ddysgwyd neu wneud argymhellion gwella plismona – cael yr effaith fwyaf ar hyder y cyhoedd.
- Byddwn yn sicrhau bod ein gwaith yn amserol ac o ansawdd uchel fel ei fod yn bodloni anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth ac yn gwrthsefyll craffu allanol.
- Byddwn yn cynnal trosolwg cadarn o system gwynion yr heddlu – gan ymyrryd lle mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw ymdriniaeth leol yn effeithiol nac yn gyson a gweithio gyda heddluoedd, Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd ac eraill i wella amseroldeb ac ansawdd ar draws y system.

## Arwain gwelliant

- Byddwn yn defnyddio ein hannibyniaeth a’n tystiolaeth o’n gwaith i fod yn llais awdurdodol y gellir ymddiried ynddo wrth alw am newid i wella plismona, yn enwedig mewn meysydd sy’n effeithio ar hyder y cyhoedd.
- Byddwn yn gweithio gyda’r rhai sy’n darparu plismona i wneud yr achos dros y gwelliannau hynny – gan arwain, cynnull a pherswadio fel bod ein hargymhellion yn arwain at newid diriaethol.
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid fel CoP, HMICFRS ac eraill fel bod ein gwaith yn dylanwadu ac yn ategu eu rhai nhw. Gallwn ddangos i'r cyhoedd ymateb system i'r materion sy'n effeithio ar eu hyder mewn plismona.

## Perfformiad

- Byddwn yn sicrhau bod gan ein cydweithwyr y sgiliau a’r offer i gyflawni ein strategaeth ac ymateb i natur esblygol plismona a chymhlethdod cynyddol ein gwaith.
- Byddwn yn sefydliad sy’n perfformio’n dda lle mae ein gwaith yn ystyrlon ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau sy’n gwella plismona a hyder y cyhoedd ynddo.
- Byddwn yn symud yn sylfaenol ble a sut mae pobl yn gweithio, gan gyflwyno gweithio hybrid a gwell offer a chymwysiadau i gefnogi ein gwaith.
- Byddwn yn gwneud defnydd deallus ac effeithiol o ddata a gwybodaeth yn ganolog i sut mae’r sefydliad yn gweithredu. Byddwn yn gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth ym mhob maes ac yn gwneud y gorau o'r gwerth a gawn o'r data sydd gennym.
- Byddwn yn dod yn gyflogwr o ddewis trwy barhau i ddatblygu ein ffocws ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a lles ein cydweithwyr.

Bob blwyddyn byddwn yn cyhoeddi cynllun busnes manwl yn nodi'r camau penodol y byddwn yn eu cymryd yn erbyn pob un o'r amcanion hyn. Bydd hyn yn cynnwys fframwaith perfformiad manwl yn nodi'r mesurau y byddwn yn eu defnyddio i ddangos ein bod yn cyflawni ein strategaeth yn llwyddiannus. Bydd y cynlluniau busnes a gynhyrchwn ar gyfer pob blwyddyn ariannol hefyd yn cynnwys rhagor o wybodaeth am sut y byddwn yn defnyddio ein hadnoddau i gyflawni’r cynllun hwn.







# Cenhadaeth a gweledigaeth

**Ein cenhadaeth yw gwella plismona trwy goruchwyliaeth annibynnol o gwynion yr heddlu, dal yr heddlu i gyfrif a sicrhau dysgu effeithiau newid**

**Ein gweledigaeth yw bod pawb yn gallu cael ymddiriedolaeth ac hyder yn yr heddlu**

# Ein hamcanion

# Ymwybyddiaeth a hyder

## Amcan strategol: Mae pobl yn gwybod am y system gwynion ac yn hyderus i'w ddefnyddio

Ni all hyder mewn plismona wella heblaw ei fod yn gallu dangos ei fod yn gwrando ar y materion sy'n peri pryder i gymunedau ac yn ymateb iddynt. Mae'n rhaid i'r cyhoedd fod â'r hyder, parodrwydd a'r gallu i godi pryderon am ymddygiad neu anfodlonrwydd â'r gwasanaeth maent yn derbyn.

Rydym yn gwybod nad yw rhai pobl yn gwybod y gallant gwyno, ac nid oes gan eraill yr hyder i wneud hynny. Rydym am i'r system gwynion fod yn hygyrch fel y gall pawb ei ddefnyddio pan fydd ganddynt bryderon. Rydym eisiau i blismona weld hwn fel cyfle i ddeall yn well y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu ac i wrando, dysgu a gwella.

Byddwn yn defnyddio tystiolaeth am natur cwynion a sut yr ymdrinnir â nhw i lywio ein holl waith gan gynnwys y materion y dylem ymchwilio iddynt yn annibynnol, ein gwaith i oruchwylio a gwella'r ffordd y mae heddluoedd yn ymdrin â chwynion, a'r argymhellion a wnawn i wella plismona

## Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, byddwn yn:

Parhau i wneud yr achos dros well cymorth i'r rhai sydd ei angen i gael mynediad i'r system gwynion a'i llywio.

Defnyddio amrywiaeth o weithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu i:

- Godi ymwybyddiaeth o'r system gwynion, hawl pobl i gwyno, a'r canlyniadau y gallant eu disgwyl.
- Weithio'n uniongyrchol gyda chymunedau i ddeall eu pryderon am blismona a dangos sut mae hyn yn dylanwadu ar ein gwaith.
- Godi ymwybyddiaeth o ganlyniad cwynion, yn enwedig lle maent wedi arwain at ddatrysiad i achwynwyr a gwelliannau mewn plismona.
- Weithio gydag ystod o randdeiliaid cymunedol a thrydydd partïon a all helpu i godi ymwybyddiaeth o'r hawl i gwyno a sut mae hyn yn gwella plismona.
- Weithio gyda'n panel ieuenctid i barhau i ddefnyddio lleisiau pobl ifanc i herio a siapio ein gwaith.

Defnyddio ymchwil (gennym ni ac eraill) i:

- Sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hymdrechion ar y rhai sydd â'r hyder lleiaf mewn plismona (yn hanesyddol, pobl ifanc a'r rhai o gefndiroedd du a lleiafrifol, ond sydd bellach yn cynnwys menywod a merched).
- Deall yn well pam fod diffyg hyder gan rai pobl a sut y gallwn wella eu canfyddiadau o'r system gwynion a phlismona.




- Parhau i fonitro lefelau hyder a bod yn ystwyth wrth ymateb i ddigwyddiadau penodol neu faterion sy'n dod i'r amlwg a allai effeithio ar hyder y cyhoedd.
- Ceisio adborth yn rheolaidd ar brofiad y rhai y mae'r system gwynion yn effeithio arnynt (gan achwynwyr a'r rhai a ymchwiliwyd iddynt).
- Cynhyrchu adroddiadau dibynadwy am ganfyddiadau’r cyhoedd a rhanddeiliaid o’r system gwynion, perfformiad yr IOPC a heddluoedd, ystadegau swyddogol ar farwolaethau yn y ddalfa a chanlyniadau yn dilyn ymchwiliadau.
- Sicrhau ein bod yn dysgu o'n camgymeriadau ein hunain trwy ymchwilio'n effeithiol ac ymateb i gwynion am ein gwasanaeth.

## Y canlyniadau allweddol y byddwn yn eu cyflawni:

1. **Ymddiriedir yn system gwynion yr heddlu i fynd i'r afael â phryderon yn briodol.**
2. **Mae'r rhai sydd â llai o hyder mewn plismona yn fodlon ac yn gallu defnyddio'r system gwynion i godi eu pryderon.**
3. **Mae trefniadau yn eu lle (gwybodaeth, arweiniad a chefnogaeth) sy'n ei gwneud hi'n hawdd cwyno.**
4. **Dealltwriaeth o bryderon cymunedol sydd wedi siapio'r gwaith.**

# Ein hamcanion

# Atebolrwydd

## Amcan strategol: Mae'r system gwynion yn darparu canlyniadau teg sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n dal yr heddlu i gyfrif

Mae craffu annibynnol cadarn yn hanfodol ar gyfer ffydd a hyder y cyhoedd mewn plismona. Mae ein gwaith yn dwyn yr heddlu i gyfrif drwy ymchwilio'n annibynnol i gwynion a digwyddiadau difrifol fel marwolaethau yn y ddalfa carchar, anafiadau difrifol a honiadau o lygredd a chamymddwyn. Rydym hefyd yn gosod safonau ac yn dwyn yr heddlu i gyfrif am y modd y maent yn ymateb i gwynion gan y cyhoedd, gan gynnwys cynnal adolygiadau annibynnol mewn rhai achosion pan nad yw achwynydd yn fodlon ar y ffordd yr ymdriniwyd â'i gŵyn.

Nid yw'n ymarferol nac yn ddymunol i bob cwyn gael ei hymchwilio'n annibynnol. Rydym yn gweithio gyda heddluoedd i sicrhau bod cwynion yn cael eu trin yn briodol, gan ganolbwyntio ar ddatrys achwynwyr a dysgu ar gyfer y gwasanaeth. Rydym yn ymyrryd pan na fydd heddluoedd yn ymdrin â chwynion yn briodol.

Byddwn yn ymchwilio'n annibynnol i achosion lle mae hyn yn ofyniad gorfodol a lle mae materion yn effeithio'n sylweddol ar hyder y cyhoedd. Byddwn yn defnyddio ystod o dystiolaeth i ddeall lle mae angen i blismona wella a sicrhau bod ymateb priodol ar draws y system gwynion i'r themâu hyn. Yn yr un modd â'n gwaith presennol ar wahaniaethu ar sail hil, gall ein hymateb gynnwys cymryd mwy o achosion yn annibynnol, asesiad gweithredol o'r modd y mae heddluoedd yn ymdrin â chwynion, ymchwil annibynnol, a gweithio gyda rhanddeiliaid i gefnogi achwynwyr yn well. Nod y gwaith hwn fydd adeiladu corff o dystiolaeth fel y gall yr IOPC wneud argymhellion i wella plismona a rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ynghylch y meysydd hynny sy'n peri'r pryder mwyaf.

Byddwn hefyd yn defnyddio ein sefyllfa unigryw i arwain gwelliannau i'r systemau cwynion a disgyblaeth. Byddwn yn defnyddio tystiolaeth i eiriol dros newidiadau i ddeddfwriaeth a chanllawiau yn ogystal â gwelliannau i brosesau cysylltiedig (e.e. crwnerol, troseddol a disgyblu), yn enwedig lle mae'r rhain yn effeithio ar brydlondeb a hyder y cyhoedd mewn canlyniadau.

## Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, byddwn yn:

- Gwella'r cymorth a ddarparwn i ddefnyddwyr gwasanaeth, yn enwedig y rhai ag anghenion ychwanegol. Byddwn yn eu rhoi wrth galon popeth a wnawn ac yn adeiladu ar ein hachrediad llwyddiannus i safon Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer.
- Sicrhau bod ein gwaith yn amserol, bod ein penderfyniadau yn gyson o ansawdd uchel ac yn gwrthsefyll craffu allanol.
- Canolbwyntio ar leihau'r amser a gymerir i achosion ddod i ben ar ôl i ni gyrraedd diwedd ein hymchwiliad, gan weithio gydag eraill lle bod angen i wella prydlondeb a lleihau effaith oedi ar achwynwyr a'r rhai sy'n destun ymchwiliadau.
- Ymateb i faterion sy'n effeithio ar hyder y cyhoedd mewn plismona, gan ddefnyddio ystod o wybodaeth i lywio penderfyniadau ar y cymysgedd cywir o waith i gael effaith ym mhob maes.

- Parhau i ymchwilio i achosion lle mae ymchwiliad annibynnol yn orfodol (Erthyglau 2 a 3 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol[2]) ac ystyried yn ofalus lle gall ymchwiliadau annibynnol i faterion eraill gynyddu hyder y cyhoedd.
- Cwblhau ein gwaith thematig ar wahaniaethu ar sail hil a chyflwyno ffocws newydd ar drais yn erbyn menywod a merched. Byddwn yn cyflwyno themâu pellach yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n effeithio ar hyder y cyhoedd.
- Adolygu'n annibynnol y modd y mae'r heddlu yn delio â chwynion ac adolygu ymchwiliadau lleol i farwolaethau ac anafiadau difrifol. Byddwn yn gwneud argymhellion i newid y canlyniadau hynny pan fydd angen.
- Goruchwylio'r modd y mae heddluoedd yn ymdrin â chwynion cyhoeddus ac ymyrryd pan fydd angen gwella hyn.
- Gweithio gyda heddluoedd a chyrff plismona lleol fel bod profiad defnyddwyr o'r system gwynion yn cael ei wella, a bod canlyniadau'n canolbwyntio ar ddatrysiad.
- Defnyddio ein safle unigryw i arwain gwelliant ar draws yr ystod o ffactorau sy'n effeithio ar brydlondeb a hyder y cyhoedd yng nghanlyniadau'r systemau cwynion a disgyblu

## Y canlyniadau allweddol y byddwn yn eu cyflawni:

1. **Trin cwynion yn amserol, o ansawdd uchel ac yn gyson.**
2. **Mae adolygiadau (IOPC a PCCs) yn cyflawni canlyniadau sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr lle nad yw cwynion wedi'u datrys yn lleol.**
3. **Mae'r IOPC yn cynnal ymchwiliadau amserol o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael â'r materion mwyaf difrifol a sensitif.**
4. **Mae ein gwaith yn dangos ymateb bwriadol ac ystwyth i faterion sy'n effeithio ar hyder mewn plismona. Mae ein gwaith yn dangos ymateb bwriadol ac ystwyth i faterion sy'n effeithio ar hyder mewn plismona.**

2. Mae Erthygl 2 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn datgan y bydd hawl pawb i fywyd yn cael ei warchod gan y gyfraith. Mae Erthygl 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gwahardd artaith a "thriniaeth neu gosb annynol neu ddiraddiol". Nid oes unrhyw eithriadau na chyfyngiadau ar yr hawl.

# Ein hamcanion

# Arwain gwelliant

## Amcan strategol: Mae ein tystiolaeth a'n dylanwad yn gwella plismona

Mae'r IOPC mewn sefyllfa unigryw i fod yn llais blaenllaw wrth wella nid yn unig y system gwynion ond plismona ei hun. Drwy ein gwaith, rydym yn ymgysylltu â'r rhai sy'n ddihyder ac sydd â phryderon ynghylch sut y defnyddir pwerau'r heddlu. Mae gennym lawer iawn o dystiolaeth am yr hyn sy'n achosi anfodlonrwydd y cyhoedd â phlismona, yn ogystal ag achosion digwyddiadau difrifol fel marwolaethau ac anafiadau difrifol, llygredd ac ymddygiad gwael. Yn aml, nid yw hyn yn ymwneud ag ymddygiad unigolion yn unig, ond materion systemig yn ymwneud â pholisi, hyfforddiant, ymarfer, arweinyddiaeth a diwylliant.

Mae angen i ni ddefnyddio tystiolaeth o bob agwedd ar ein gwaith i arwain gwelliant plismona, ond ni allwn wella arferion plismona a hyder y cyhoedd ar ein pen ein hunain.

Mae gan eraill gyfrifoldebau hefyd o ran dwyn yr heddlu i gyfrif ac mae'n rhaid i ni weithio gyda phartneriaid fel HMICFRS, CoP, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a'r Swyddfa Gartref i sicrhau bod ein hargymhellion yn cael effaith ac yn ysgogi gwelliant. Byddwn yn defnyddio tystiolaeth o'n gwaith i wneud argymhellion o ansawdd uchel sy'n ategu gwaith eraill a byddwn yn gweithio i berswadio prif gwnstabliaid, PCCs ac eraill i'w gweithredu. Lle na chaiff ein hargymhellion eu gweithredu, byddwn yn disgwyl iddynt esbonio pam ac annog eraill i geisio'r esboniadau hynny.





## Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, byddwn yn:

- Ymgysylltu ag amrywiaeth o gymunedau a rhanddeiliaid i ddeall eu pryderon a sicrhau bod ein gwaith yn ymateb i'r materion sy'n effeithio ar hyder y cyhoedd mewn plismona.
- Defnyddio tystiolaeth o'n gwaith i wneud argymhellion a galw am newidiadau i wella arfer, diwylliant ac arweinyddiaeth o fewn plismona
- Gweithio gyda'r CoP, HMICFRS ac eraill i gymryd agwedd gydweithredol at feysydd sy'n peri pryder.
- Sicrhau mwy o effaith drwy weithio gydag amrywiaeth o drydydd partïon fel y gallant ddefnyddio ein tystiolaeth i lywio eu gwaith o wella plismona.
- Tynnu sylw at arfer da lle rydyn ni'n dod o hyd iddo a helpu i'w rannu.
- Mynegi'r hyn a welwn fel yr ymddygiad anghywir mewn plismona – gan alw am newid gyda thystiolaeth ac awdurdod.
- Cynnull grwpiau allweddol o bobl i weithio gyda ni ac ar ein rhan.
- Sefydlu ein rôl fel arweinydd wrth wella plismona trwy amlygu a rhannu arfer da gyda heddluoedd a chyrff plismona lleol.
- Sicrhau bod y wybodaeth swyddogol rydyn ni'n ei chynhyrchu a'i rhannu yn gywir ac yn gredadwy.

## Y canlyniadau allweddol y byddwn yn eu cyflawni:

1. **Tystiolaeth o welliannau mewn polisi, arfer a diwylliant plismona o ganlyniad i'n gwaith.**
2. **Rydym yn dylanwadu ac yn cynnull amrywiaeth o bartneriaid i weithio gyda ni i ddylanwadu ar newid.**
3. **Mae'r IOPC yn cael ei gydnabod fel arweinydd o ran gwella plismona a llais cywir ac annibynnol y gellir ymddiried ynddo.**

# Ein hamcanion

# Perfformiad

## Rydym yn sefydliad sy'n cyflawni perfformiad uchel.

Rydym am i'r IOPC fod yn fan lle gall cydweithwyr berfformio ar eu gorau. Rydym wedi gwneud cynnydd o ran creu lle gwych i weithio yn ein strategaeth gyntaf. Byddwn yn adeiladu ar hynny drwy barhau i ddangos ein hymrwymiad i gydraddoldeb a chynhwysiant yn allanol ac yn fewnol, a chael ein cydnabod fel sefydliad sy'n cael ei yrru gan werthoedd.

Byddwn yn sicrhau bod ein rheolwyr a'n huwch arweinwyr yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddarparu arweinyddiaeth effeithiol i'n cydweithwyr. Byddwn yn gwreiddio ein siarter arweinyddiaeth ochr yn ochr â'n strategaeth pobl ac yn ysgogi diwylliant cefnogol, parchus, datblygiadol i'n holl gydweithwyr ochr yn ochr â'r gallu i gyflawni'r newid a amlinellir yn y strategaeth hon.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein pobl. Byddwn yn sicrhau eu bod yn cael yr hyfforddiant a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, ynghyd â'r offer a'r cyfleusterau i wneud eu gwaith, gan eu galluogi i wneud gwaith cynyddol gymhleth. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda'n technoleg. Mae hyn wedi arwain at arbedion ariannol ac wedi creu amgylchedd technolegol gwell i'n staff weithio ar y cyd â'n defnyddwyr gwasanaeth. Mae llawer mwy i'w wneud i wella ein systemau craidd. Mae angen iddynt integreiddio'n well fel y gallwn wneud gwell defnydd o'n data, gwella ein prosesau ac adeiladu'r diwylliant data sydd ei angen arnom. Bydd angen rheoli'r rhain ac elfennau eraill o'r strategaeth yn ofalus er mwyn gwireddu'r uchelgeisiau a osodwyd gennym ar gyfer y newidiadau hyn yn llwyddiannus.

Ar draws yr holl waith yn ein strategaeth, bydd angen i gynaliadwyedd lywio'r dewisiadau a wnawn am ein gweithle, teithio a chaffael er mwyn rhoi mwy o ystyriaeth i'n heffaith ar yr hinsawdd.

## Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, byddwn yn:

- Sicrhau bod gan ein harweinwyr olwg clir a chyson o'n Cynllun Strategol a'u bod yn gallu gweithio ar draws y sefydliad i'w roi ar waith.
- Recriwtio, cefnogi, datblygu a chadw gweithlu medrus ac amrywiol iawn gan sicrhau bod cydweithwyr yn rheoli eu datblygiad eu hunain, yn dysgu'n barhaus ac yn meddu ar y sgiliau i berfformio yn y dyfodol.
- Sicrhau bod ein gweithlu'n amrywiol, yn cynrychioli'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, a bod ein hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant yn cael ei gydnabod gan bawb.
- Sicrhau bod ein cydweithwyr yn llawn cymhelliant, yn ymgysylltu ac yn falch o weithio i'r IOPC.
- Gwella ein cynnig lles i ganolbwyntio'n well ar yr unigolyn, gan gynnwys darparu cymorth trawma arbenigol i gydweithwyr i adlewyrchu natur heriol ac ar brydiau trallodus ein gwaith.
- Meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni ein strategaeth nawr ac yn y dyfodol, gan adlewyrchu cymhlethdod

cynyddol ein gwaith a'i ofynion technegol ac arbenigol.

- Rhoi yr offer sydd eu hangen ar ein staff i wneud y gwaith nawr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys cofleidio technoleg newydd, gan gynnwys cwblhau'r gwaith o gyflwyno ein system rheoli achosion newydd.
- Defnyddio ein hystad i wella sut rydym yn gweithio a chefnogi'r cyfleoedd a'r galwadau sydd wedi dod i'r amlwg ar ôl Covid-19, yn unol ag agenda Lefelu i Fyny y Llywodraeth[3].
- Gwneud ein cyfraniad at uchelgeisiau cynaliadwyedd y llywodraeth. Byddwn yn datblygu ein dealltwriaeth o effaith ein gwaith ar newid yn yr hinsawdd a lliniaru risgiau yn ôl yr angen trwy ganolbwyntio mwy ar ein hystad a sut rydym yn ei ddefnyddio, sut rydym yn teithio gan ddefnyddio ein fflyd ac opsiynau eraill a sut rydym yn caffael a phrynu.
- Darparu ein gwasanaethau yn effeithlon a cheisio gwella bob amser. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu yn erbyn ein hamcanion strategol i ganolbwyntio ar wneud llai a'i wneud yn dda.
- Cyflawni ein strategaeth ddata newydd, gan wreiddio diwylliant data ar draws y sefydliad i wneud y mwyaf o'i werth ar draws ein gwaith. Fel rhan o hyn byddwn yn cyflwyno system rheoli dogfennau a chofnodion electronig newydd ac yn cwblhau ein hymateb i argymhellion

## Y canlyniadau allweddol y byddwn yn eu cyflawni:

1. **Arweinyddiaeth yn unol â'n gwerthoedd gyda chynllun clir ar gyfer y dyfodol.**
2. **Lle gwych i weithio i'n pobl.**
3. **Datblygu galluoedd ar gyfer y dyfodol i alluogi perfformiad uchel.**
4. **Defnydd deallus o wybodaeth a data.**
5. **Defnydd cost effeithiol a chynaliadwy o adnoddau.**

3 "Lefelu i fyny" yw cynllun llywodraeth y DU i leihau'r gwahaniaethau rhwng rhannau cyfoethocach a thlotach y DU


IOPC
Independent
Office for
Police Conduct


IOPC
Independent
Office for
Police Conduct

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct

Cysylltwch â ni i gael gwybod mwy am ein gwaith neu i ofyn am y cynllun hwn mewn fformat arall.

**www.policeconduct.gov.uk**

Dilynwch ni:

Twitter: **@policeconduct**

Instagram: **@policeconduct**

E-bost: **enquiries@policeconduct.gov.uk**

Ffoniwch: **0300 020 0096**

Negeseuo: **18001 0207 166 3000**

Ysgrifennwch atom yn:

**IOPC**
**PO Box 473**
**Sale M33 0BW**

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg.
We welcome telephone calls in Welsh

Chwefror 2023

**© IOPC 2023**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai lle nodir yn wahanol.

Nid yw hyn yn cynnwys deunydd ar y wefan hon fel deunydd sy'n perthyn i drydydd partïon. Rhaid cael caniatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE® CSE